

Ymarferwyr gwaith ieuenctid ¹

Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

Dadansoddiad o sylwadau testun agored



1. Baich gwaith

Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – baich gwaith

- lleihau nifer y tasgau gweinyddol a'r amser a dreulir arnynt;
- cyllid ychwanegol i gynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid;
- cynnydd mewn oriau gwaith gweithwyr ieuenctid.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 221

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 44

Wrth ymateb i'r canlynol:

Cwestiwn 5b – A oes gennych awgrymiadau ymarferol ynglŷn â pha newidiadau fyddai'n helpu i wneud eich baich gwaith yn haws i'w drin?

Dadansoddiad o'r sylwadau yn ymwneud â'r brif thema baich gwaith

1.1. Lleihau nifer y tasgau gweinyddol a'r amser a dreulir arnynt (16 o sylwadau)

- Dylid lleihau ochr weinyddol y rôl, yn enwedig gwaith papur a chyfarfodydd.

Enghreifftiau

Mae gwaith papur yn cymryd llawer o amser oherwydd bod cyllid yn dod o, ac yna mae mewnbynnu data ar y cyfrifiadur yn gallu cymryd llawer iawn o amser.

Treulio llai o amser ar dasgau gweinyddol. Gofynnir am gwblhau gormod o dasgau munud olaf sy'n amharu ar wneud y swydd ei hun.

1.2. Cyllid ychwanegol i gynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid (7 sylw)

- Mae cyllid ychwanegol yn caniatáu i'r sector gynllunio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, cyflogi staff ychwanegol a gwella'r gwasanaeth.

Enghreifftiau

Cyllid tymor hwy, cyllid craidd mwy cynaliadwy.

Mwy o gyllid craidd i reolwyr ieuenctid fel y gellir treulio mwy o amser ar gynllunio a goruchwyllo.

1.3. Cynnydd mewn oriau gwaith gweithwyr ieuenctid (7 sylw)

- Mae nifer yr oriau dan gontract yn annigonol ar hyn o bryd ar gyfer y baich gwaith/baich achosion.
- Mae nifer isel o oriau dan gontract yn annog trosiant staff.

Enghreifftiau

¹ Noder, mae gweithwyr ieuenctid cymwysedig a gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig wedi'u cyfuno.

Mae gwaith y mae angen ei wneud y tu allan i'r oriau hyn i weithio'n effeithiol yn y rôl ond nad wyf yn ei wneud gan nad yw'n dod o fewn oriau taledig.

Contractau sy'n cynnwys mwy o oriau ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn hytrach na chontractau oriau isel sy'n annog cyfradd drosiant uchel.

2. Baich gwaith – Darparu dysgu cyfunol / o bell

Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – darparu dysgu cyfunol / o bell

Baich gwaith ychwanegol:

- effaith y pandemig COVID-19 – pob agwedd ar y gwaith yn fwy anodd;
- gofynion gweinyddol a / neu waith papur;
- staffio annigonol – yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u hyfforddi ar lefel uwch;
- symudiad oddi wrth bobl ifanc i dargedau perfformiad;
- nifer annigonol o oriau dan gontract ar gyfer y baich gwaith/baich achosion.

Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella:

- mwy o gymorth o safon gan wasanaethau i helpu pobl ifanc;
- cymorth dros y ffôn i bobl ifanc;
- staff ychwanegol i ymdrin â thasgau gweinyddol;
- mwy o staff sydd â chymwysterau gwaith ieuenctid/addysgu a sicrhau ansawdd.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 221

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 90

Cyfanswm nifer yr awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella a roddwyd: 26

Wrth ymateb i'r canlynol:

Cwestiwn 8 – Os yw'ch baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol [o ganlyniad i ddarparu dysgu cyfunol yn ystod y pandemig Covid-19], esboniwch beth oedd y gwaith ychwanegol a rhwch unrhyw awgrymiadau ymarferol ar gyfer sut gellid gwella hyn.

Dadansoddiad o'r sylwadau yn ymwneud â'r thema dysgu cyfunol / o bell

2.1. Effaith y pandemig COVID-19 – pob agwedd ar y gwaith yn fwy anodd (50 o sylwadau)

- Datblygu deunydd dysgu ar-lein/cyfunol.
- Mesurau diogelu newydd sydd wedi cael eu rhoi ar waith.
- Rhoi cefnogaeth emosiynol i bobl ifanc yn ystod adeg anodd.
- Effaith y pandemig ar amgylchiadau personol.

Enghreifftiau

Datblygu dysgu cyfunol a chanllawiau diogelwch newydd y mae'n rhaid eu dehongli a'u gweithredu i sicrhau bod adeiladau, arferion a staff yn ddiogel.

Mwy o bobl ifanc y mae arnynt angen cymorth, yn enwedig lles emosiynol/iechyd meddwl.

2.2. Gofynion gweinyddol a / neu waith papur (35 o sylwadau)

- Mae llai o gysylltiad wyneb yn wyneb wedi golygu mwy o negeseuon e-bost, mwy o gyfarfodydd (yn enwedig galwadau fideo).
- Mae cwblhau gwaith papur yn ddigidol, h.y. asesiadau risg, wedi achosi problemau.

- Cynnydd mewn atgyfeiriadau yn ystod y pandemig.

Enghreifftiau

Mae'n cymryd mwy o amser i wneud popeth o bell yn hytrach na gwneud gwaith wyneb yn wyneb yn unig. Mae'n fwy anodd dod o hyd i ffyrdd o lenwi ffurflenni ac ati ac mae'n cymryd mwy o amser.

Cynllunio sesiynau ar-lein, a chysylltu â phobl ifanc ar gyfer ffurflenni caniatâd ac asesiadau.

2.3. Staffio annigonol – yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u hyfforddi ar lefel uwch (8 sylw)

- Mae absenoldebau neu doriadau staff o ganlyniad i'r pandemig, ynghyd ag absenoldebau sy'n gysylltiedig â'r feirws, wedi arwain at lwyth gwaith uwch.

Enghreifftiau

Llai o staff, felly'n cyflenwi sifftiau.

Angen mwy o gymorth i staff

2.4. Symudiad oddi wrth bobl ifanc i dargedau perfformiad (5 sylw)

- Mae mwy o waith papur a dyletswyddau sefydliadol wedi cymryd rhywfaint o bwyslais oddi ar helpu pobl ifanc.

Enghreifftiau

Cynnydd mewn baich gwaith sefydliadol, ond nid gyda phobl ifanc.

Pwysau estyn allan i bobl ifanc trwy blatfformau anghyfarwydd ar yr un pryd â cheisio bodloni disgwyliadau'r sefydliad i gyrraedd targedau.

2.5. Nifer annigonol o oriau dan gontract ar gyfer y baich gwaith/llwyth achosion (2 sylw)

- Mae'r nifer bresennol o oriau dan gontract yn annigonol ar gyfer y baich gwaith uwch a achoswyd gan y pandemig.

Enghreifftiau

Ers COVID a'r dybiaeth fod gweithio gartref yn rhoi mwy o amser i chi, rywsut, gofynnwyd i mi gymryd rhan mewn mwy o waith ymchwil a bu'n rhaid i mi gynorthwyo fy staff llawer mwy.

Yn ystod y pandemig, roedd ein dyletswyddau rheolaeth llinell yn cynnwys ffonio staff i wirio eu lles. Roedd cadw mewn cysylltiad â phawb yn anodd ac yn cymryd llawer iawn o amser.

Dadansoddiad o'r sylwadau yn ymwneud ag awgrymiadau ymarferol ar gyfer sut gellir gwella dysgu cyfunol/o bell:

2.6. Mwy o gymorth o safon gan wasanaethau i helpu pobl ifanc (9 sylw)

- Mae'r pandemig wedi cynyddu'r angen am wasanaethau a lleihau'r ansawdd ar yr un pryd, h.y. cyfarfodydd rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb.
- Gweithio gydag asiantaethau eraill i gynnal safonau.

Enghreifftiau

Effaith fawr ar les pobl ifanc. Angen mwy o wasanaethau a chymorth.

Oriau wyneb yn wyneb a digidol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n cael trafferth ymdopi'n feddyliol â gwaith ysgol, bywyd gartref a chyfyngiadau/colled.

2.7. Cymorth dros y ffôn i bobl ifanc (5 sylw)

- Sicrhau bod amser wedi'i neilltuo i gysylltu â phobl ifanc, gan ei bod yn fwy anodd o lawer ymgysylltu yn ystod y pandemig.

Enghreifftiau

Sicrhau bod y bobl ifanc rydw i'n eu cynorthwyo yn cael galwadau lles rheolaidd, cymorth gyda dysgu digidol a mynd i'r afael â rhwystrau eraill a allai godi.

Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn wythnosol yn lle'n fisol oherwydd bod pobl ifanc wedi gofyn amdanynt yn fwy rheolaidd ers i ni symud ar-lein. Rydym hefyd wedi ychwanegu grŵpiauer mwyn lliniaru materion iechyd meddwl, unigrwydd ac arwahanu ymhlith ein pobl ifanc. Sefydlom llinell ffôn hefyd er mwyn i bobl ifanc gysylltu â ni os ydynt eisiau sgwrsio am 15 munud.

2.8. Staff ychwanegol i ymdrin â thasgau gweinyddol (4 sylw)

- Disgwylir i weithwyr ieuenctid bellach ymgymryd â dyletswyddau sydd y tu hwnt i gylch gwaith eu swydd – byddai staff penodol i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn helpu i ysgafnhau'r baich gwaith.

Enghreifftiau

Mwy o staff ar gyfer dyletswyddau gweinyddol.

Mae mwy o adnoddau o ran cynyddu capasiti staff a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pandemig Covid yn hanfodol.

2.9. Mwy o staff sydd â chymwysterau gwaith ieuenctid/addysgu a sicrhau ansawdd (3 sylw)

- O ganlyniad i'r pandemig a diffyg cyllid, mae nifer y gweithwyr ieuenctid cymwysedig wedi lleihau.

Enghreifftiau

Mae symud cymwysterau gwaith ieuenctid ar-lein a sicrhau ansawdd y canlyniadau wedi cymryd mwy o amser. Gellid gwella hyn gyda mwy o staff sydd â chymwysterau gwaith ieuenctid a chymwysterau addysgu a sicrhau ansawdd.

..... newid meysydd gwaith yn barhaus + sicrhau arferion diogel ar gyfer gwaith digidol gyda phobl ifanc.

3. Dysgu proffesiynol

Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – dysgu proffesiynol

- iechyd meddwl a lles – yn benodol digartrefedd, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio cyffuriau, cam-drin domestig, adfer o drawma, LGBTQ, rhywedd a hunaniaeth;
- rheolaeth/arweinyddiaeth/gwaith amlasiantaethol/partneriaeth;
- sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol;
- addysg, Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), therapïau awyr agored/creadigol;
- cymwysterau gwaith ieuenctid lefel uwch;
- gwella sgiliau Cymraeg;
- marchnata, hyrwyddo, ymgysylltu â phobl ifanc.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 221

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 111

Wrth ymateb i'r canlynol:

Cwestiwn 15 – Ym mha feysydd y byddech chi'n croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyd at dri maes)

Dadansoddiad o'r sylwadau yn ymwneud â'r thema Dysgu Proffesiynol

3.1. Iechyd meddwl a lles – yn benodol digartrefedd, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio cyffuriau, cam-drin domestig, adfer o drawma, LGBTQ, rhywedd a hunaniaeth (33 o sylwadau)

- Mwy o gyrsiau hyfforddi a luniwyd yn benodol i drafod neu ymdrin â'r materion uchod gyda phobl ifanc.

Enghreifftiau

Mwy o hyfforddiant ar faterion cyfredol fel trais domestig yn y cartref, hyfforddiant iechyd meddwl, hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyffuriau.

Cefnogi iechyd meddwl/emosiynol pobl ifanc. Trais ieuenctid. Cam-drin domestig pobl ifanc.

3.2. Rheolaeth/arweinyddiaeth/gwaith amlasiantaethol/partneriaeth (22 o sylwadau)

- Hyfforddiant effeithiol i wella sgiliau arwain a rheoli – mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau'n gyffredinol ond mae rhai'n gofyn am hyfforddiant sy'n benodol i waith ieuenctid.
- Gwell cysylltiadau a chyfathrebu ag asiantaethau eraill a phartneriaethau.

Enghreifftiau

Arweinyddiaeth strategol a gwaith amlasiantaethol.

Byddwn yn hoffi cael mwy o hyfforddiant ar reoli ac arwain, yn benodol o ran gwaith ieuenctid.

3.3. Sgiliau TGCh/digidol gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol (20 o sylwadau)

- Mae'r lefel bresennol o sgiliau TG ymhlith gweithwyr ieuenctid yn annigonol i ddarparu dysgu cyfunol.
- Gallai mynediad at dechnoleg newydd a gwell wella'r ffordd o ddarparu dysgu cyfunol hefyd.

Enghreifftiau

Technolegau newydd a datblygol i helpu i ddarparu gwaith ieuenctid.

O ganlyniad i COVID-19 a'r ffaith ein bod ni'n gwneud popeth yn ddigidol, rydw i wedi'i chael hi'n anodd gan nad wyf yn dechnegol iawn. Ond rydw i wedi dal ati ac yn gwella.

3.4. Addysg, Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), therapïau awyr agored/creadigol (11 o sylwadau)

- Rhyddid i ymgymryd â chymwysterau addysg, fel TAR.
- Amrywiaethu sgiliau gyda therapïau awyr agored neu greadigol.

Enghreifftiau

Cymhwyster addysg – Mae gwaith ieuenctid yn rhan enfawr o addysg ysgol. Byddai gwaith ieuenctid yn cael ei gydnabod yn fwy o fewn ysgolion petai rhai gweithwyr ieuenctid/aelodau o staff yn athrawon cymwysedig sy'n gweithredu ar yr un lefel addysgu ag athrawon. Yn bersonol, hoffwn wneud TAR – uwchradd, ond nid yw hyn yn bosibl o ganlyniad i'r ymrwymiad yn y lleoliad a hefyd oherwydd nad yw'r pynciau'n cyd-fynd â'r adran iechyd a lles o'r cwricwlwm newydd y mae gwaith ieuenctid yn chwarae rhan mor fawr ynddi ac y gallai ei ddarparu'n wych.

Addysg awyr agored.....rhywbeth newydd a diddorol.

3.5. Cymwysterau gwaith ieuenctid lefel uwch (11 o sylwadau)

- Datblygiad penodol wedi'i dargedu at y rôl bresennol h.y. gweithio tuag at gymhwyster gwaith ieuenctid Lefel 3 os oes ganddynt gymhwyster Lefel 2 eisoes.

Enghreifftiau

Grant/benthyciad i helpu i dalu am ddysgu pellach. Cwblheais Ddyfarniad Gwaith Ieuenctid Lefel 2 yn fy amser fy hun, ond nid wyf wedi gallu gwneud Lefel 3 o ganlyniad i'r oriau lleoliad sy'n ofynnol ar ben fy ngwaith.

Dylai datblygiad proffesiynol parhaus mewn Gwaith Ieuenctid a Phlant (YCW) fod yn ddeddfwriaethol ac yn rhan o gofrestrriad proffesiynol.

3.6. Yr iaith Gymraeg (4 sylw)

- Datblygu hyfforddiant ar y Gymraeg yn benodol i'r rôl.
- Mewn rhai achosion, mae datblygu sgiliau Gymraeg wedi cael ei atal o ganlyniad i Covid-19.

Enghreifftiau

Datblygu fy sgiliau yn yr iaith Gymraeg.

Hyfforddiant ar y Gymraeg (wedi'i ohirio o ganlyniad i Covid).

3.7. Marchnata, hyrwyddo, ymgysylltu â phobl ifanc (4 sylw)

- Arweiniad ar sut i hybu proffil yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig ac annog pobl ifanc i ymgysylltu.

Enghreifftiau

Marchnata a hyrwyddo (darparu'n ddigidol).

Darparu gwaith ieuenctid yn ddigidol. Marchnata / cyhoeddusrwydd a sut i dargedu pobl ifanc.